


CYLCHLYTHYR LLANBEDR D.C. NEWSLETTER

Rhifyn / Issue 17 Mawth / March 2026



Gair gan y Cadeirydd

Yn gyntaf oll, hoffwn ddymuno blwyddyn newydd dda i chi gyd! Mae'r misoedd diwethaf wedi bod braidd yn heriol i'r Cyngor Cymuned yn dilyn marwolaeth Lyn Evans, ein Cadeirydd blaenorol. Roedd Lyn yn gymeriad tra angerddol a phenderfynol, - yn addas iawn i'w rôl fel y cadeirydd, - ac fe wnaeth chwarae rhan allweddol yn y rhan fwyaf o fentrau newydd a phresennol y Cyngor. Mae colled fawr ar ei ôl.

Roeddwn i wedi gwirfoddoli i fod yn Is-gadeirydd, yn bennaf i geisio dysgu ychydig mwy am ochr reoli'r Cyngor Cymuned, ychydig fisoedd cyn marwolaeth Lyn, ac felly cefais ddyrchafiad annisgwyl. Ond gyda chefnogaeth y Cynghorwyr eraill, rydym yn ymdrechu hyd yr eithaf i gyflawni ein dyletswyddau'n gydwybodol.

Bu ambell newid i'r tîm dros y misoedd diwethaf, gyda Dave Ritchie a Linda Jones yn penderfynu ymddiswyddo fel Cynghorwyr, ond rydym wedi gallu penodi dau Gynghorydd galluog iawn yn eu lle. Mae Rachael Hughes, sydd eisoes yn helpu llawer iawn gyda digwyddiadau cyhoeddus a chreu'r Cylchlythyr, wedi ailymuno â'r tîm, ac fe wnaeth Barbara Murray, cynghorydd newydd, ymuno ym mis Hydref. Mae hi eisoes wedi cymryd cyfrifoldeb am ein gwaith ar fioamrywiaeth, rhywbeth a oedd Lyn yn credu'n angerddol ynddo

From the Chair

First of all, I would like to wish you all a happy new year! The last few months have been somewhat challenging for the Community Council following the passing of Lyn Evans, our previous Chair. Lyn was an incredibly passionate and determined character and was very well suited to his role as the chair, being a key driving force in most of the new and existing initiatives the Council had in progress. He is sorely missed.

I had personally volunteered to become to Vice Chair, mainly to try to learn a bit more about the management side of the Community Council, a couple of months prior to Lyn's passing, and therefore found myself with an unexpected promotion. However with the support of the other councillors, we endeavour to deliver our duties with the upmost integrity.

We have had some changes in the team over the last few months, with Dave Ritchie and Linda Jones deciding to resign as Councillors, but we have recovered with the appointment of two very capable Councillors. Rachael Hughes who already helps a huge amount with public events and the creation of this Newsletter has rejoined the team, and Barbara Murray, a new councillor has joined in October, and already taken charge of our biodiversity workstream, something that was a big passion of Lyn's (and also a statutory requirement!)

(ac sydd hefyd yn ofyniad statudol!).

Mae Sue Stell, yr Is-gadeirydd newydd, wedi creu gwefan newydd sbon i ni, - un sydd wedi'i symleiddio, yn canolbwyntio'n bennaf ar storio a ffeilio'r holl ddogfennau angenrheidiol y mae'n ddyletswydd arnom ni fel Cyngor eu cadw fel eu bod ar gael i'r cyhoedd. Mae hwn yn gam enfawr i ni gan ein bod bellach yn cydymffurfio ac nid oes rhaid i ni boeni cymaint mwyach pan ddaw adeg yr archwiliad blynyddol heibio. Rydym yn bresennol ac yn cyfathrebu fwyfwy ar y cyfryngau cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar fusnes y Cyngor yn unig - digwyddiadau, cyfarfodydd, cynnydd ar brosiectau, - ac rydym yn ceisio hidlo unrhyw bostiadau neu hysbysebion cyffredinol diangen.

Fe wnaeth Jackie Bird gynnal dau ddigwyddiad yn ystod y tri mis diwethaf - Diwrnod Hwyl i'r Teulu yn ystod y Gaeaf, a oedd yn llwyddiant ysgubol, a'r cinio Nadolig Cymunedol yn y Griffin. Mae angen cynllunio gofalus ar gyfer y digwyddiadau, a hoffwn ddiolch i Jackie a'r holl Gynghorwyr eraill a helpodd yn ystod y digwyddiad.

Mae gennym lawer wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf (gan gynnwys o bosibl cael gosod arwydd dangosydd cyflymder sy'n fflachio yn y pentref!) a byddwn yn dal i ymdrechu, gam wrth gam, i wneud y pentref hyfryd hwn yn lle gwell i fyw.

Y Cynghorydd Gruff Jones

Sue Stell, our new Vice Chair has delivered a new website, which is stripped back, and focuses mainly on storing and filing all the necessary documents that we as a council are duty bound to store and make available to the public. This is a huge step for us as we are now compliant and no longer have to worry so much when our annual audit is due. Our social media presence and communication has strengthened and focussed on Council business only -Events, meetings, progress on projects, and we try to filter out any unwanted posts or general advertisements.

Jackie Bird has delivered two events in the last three months- a winter family fun day, which was a huge success and the Christmas Community meal at the Griffin. These events take a huge amount of planning, and I would like to thank Jackie and all the other councillors who helped during the event for their efforts.

Much is planned for the coming year (including possibly a flashing speed indicator sign in the village!) and we will endeavour to keep making this lovely village a better place to live, one step at a time.

Councillor Gruff Jones

Newyddion Diweddaraf Llanbedr DC

Hoffech chi helpu i wella agwedd ein pentref?

Rydym wedi dechrau grŵp bach cyfeillgar i ofalu am rai o'n mannau cyffredin a'u gwella, gan gynnwys y gwelyau blodau o flaen Maes Derwen ac Eglwys San Pedr.

Ein nod yw cwrdd unwaith yr wythnos i wneud rhywfaint o chwynnu, plannu a chynnal a chadw ysgafn. Nid oes angen unrhyw brofiad na sgiliau, dim ond ychydig o frwdfrydedd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r grŵp, cysylltwch â Jim Jones ar clerk.llanbedrdc@gmail.com gyda'ch enw a'ch rhif ffôn.

Byddai'n wych gweld ychydig o wynebnewydd a gweithio gyda'n gilydd i greu mannau lliwgar a chyfeillgar i fywyd gwyllt yn barod ar gyfer yr haf.



Llanbedr DC News Updates

Fancy helping brighten up our village?

We have started a small friendly group to look after and improve some of our shared spaces, including the flowerbeds in front of Maes Derwen and Old St Peters Church.

We are aiming to meet up once a week to do some weeding, planting and light maintenance. No experience or skills needed, just a bit of enthusiasm.

If you are interested in joining the group please contact Jim Jones at clerk.llanbedrdc@gmail.com with your name and phone number.

It would be great to see a few new faces and work together to create colourful, wildlife friendly spaces ready for summer.



Hoffech chi gael stondin ar ddiwrnod Coffi a Chrefft y pentref?

Mae Cyngor Sir Llanbedr yn bwriadu cynnal diwrnod coffi a chrefftau ddydd Sadwrn 5ed o Fai. Rydym yn gwahodd unrhyw un sy'n gwneud neu'n gwerthu unrhyw fath o eitemau crefft i gael stondin yn neuadd y pentref ar y diwrnod. Bydd y stondin yn rhad ac am ddim, - yn hytrach, byddem yn gofyn yn garedig i chi am wobwr ar gyfer y raffl a gynhelir ar y diwrnod. Bydd angen i chi ddod â'ch bwrdd eich hun ar gyfer unrhyw arddangosfa sydd gennych.

Mae'r cyfan wedi'i drefnu o 10 tan 2 ar y diwrnod ond byddwch yn cael dod i mewn i osod eich stondin 45 munud ymlaen llaw. Bydd lleoedd yn gyfyngedig felly archebwch cyn gynted â phosibl trwy gysylltu â Jim Jones ar clerk.llanbedrdc@gmail.com gyda disgrifiad byr o'r hyn y bydd eich stondin yn ei werthu.

Would you like a stand at the village Coffee and Crafts event?

Llanbedr CC are planning on a coffee and crafts day on Saturday 6th June. We are inviting anyone who makes any type of craft items if they want a stall in the village hall on the day. There will be no charge, but we would kindly ask for a raffle prize for the day instead. You would need to bring your own table for any display you have.

The event is scheduled from 10 until 2 on the day but there would be access to set up 45 minutes before. Places will be limited so please book asap by contacting Jim Jones on clerk.llanbedrdc@gmail.com with a brief description of what your stall will be selling.

Prydau Cymunedol Llanbedr

Mae gallu darparu digwyddiadau Cymunedol ar gyfer pob grŵp oedran o drigolion y Ward yn bwysig iawn yng nghynllun gweithredu'r Cyngorau Cymuned.

Mae cynnig cinio â chymhorthdal i'r boblogaeth hŷn sydd wedi ymddeol ar Ddydd Gŵyl Dewi yn neuadd y pentref bellach yn rhan o'n traddodiad ni yma. Mae'r digwyddiad hwn wastad wedi bod yn boblogaidd iawn, gan ddod a llawer o fwynhad yn ei sgil yn y gorffennol, ond yn anffodus nid yw bellach yn cyd-fynd â pholisi'r Cyngor i wneud pob digwyddiad mor gynhwysol â phosibl ac yn hygyrch i bawb.



Felly'r llynedd, treialwyd y byddai cinio Dydd Gŵyl Dewi a menter newydd cinio Nadolig i'r gymuned yn cael eu cynnal ar ddydd Sadwrn yn Nhafarn y Griffin. Roedd hyn yn caniatáu i'r rhan fwyaf o oedolion sy'n gweithio yn ystod yr wythnos, plant oedran ysgol a'r garfan wreiddiol o bobol wedi ymddeol, i gyd allu archebu lle os oeddent yn dymuno.

Llanbedr Community Meals

It is an important part of the Community Councils action plan to be able to provide Community events for all age groups of the inhabitants of the Ward.

One long standing event was the subsidised lunch for the older, retired population on St Davids day in the village hall. This has always been a well-attended, much enjoyed event in the past but unfortunately it no longer fitted in with the policy of the Council to make all events as inclusive as possible and accessible to all.

So last year it was trialled that the meal for St Davids Day and also a new initiative of having a Community Christmas meal would both be held on a Saturday at The Griffin Inn. This allowed for most adults working during the week, children who attended school and the original cohort of retirees, all to have access to booking a place if they so wished.



Roedd y nifer wnaeth fynychu'n galonogol iawn, cymaint felly, fel ein bod bellach yn gallu cynnig dau eisteddiad (sy'n dal gyda chymhorthdal i holl drigolion Ward Llanbedr) ar gyfer pob un o'r digwyddiadau i wneud y mwyaf o'r niferoedd. Ein nod yw darparu amgylchedd croesawgar, cymdeithasol a chynhwysol i bobl gymysgu â ffrindiau, cwrdd â'u 'cymdogion' a theimlo'n rhan o'r Gymuned.



Chwiliwch drwy'r cylchlythyr am fanylion am yr holl ddyddiadau sydd wedi'u cadarnhau yn ystod 2026. Bydd gwybodaeth archebu fanwl yn cael ei harddangos ymlaen llaw ar dudalen Facebook Cyngor Cymuned Llanbedr, neu gallwch gysylltu'n uniongyrchol â mi bob amser trwy Jim Jones, Clerc y Cyngor Cymuned.

Gobeithio y byddwn yn eich gweld mewn digwyddiad yn fuan.

Jackie Bird

The numbers were very encouraging, so much so, that we are now able to offer two sittings (still subsidised for all Llanbedr Ward residents) for each of the events to maximise numbers. Our aim is to provide a welcoming, sociable, inclusive environment for people to mix with friends, meet their 'neighbours' and very much feel part of the Community.

Please look out for details in the newsletter for all confirmed dates in 2026. Detailed booking information will be displayed in advance on the Llanbedr Community Council Facebook page, or you can always get in touch directly with me via Jim Jones, the Clerk of the Community Council.

Hope to see you at an event soon

Jackie Bird



Hanesion o Ardd Bywyd Gwyllt

Ar ôl holl ddathliadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a chyda'r gwanwyn a dyddiau hir a chynnes yr haf yn dal ymhell i ffwrdd, gall mis Chwefror ymddangos braidd yn llaith a thywyll. Ond mae yna lawer o bethau y gallwn eu gwneud o hyd dros fywyd gwyllt yn ystod mis Chwefror ac ymlaen i'r gwanwyn.

Mae gerddi a mannau gwyrdd yn llefydd gwych i wyllo prysurdeb yr adar, yn gweithio'n galed i greu nythod ar gyfer eu teuluoedd newydd. Mae coed noeth y gaeaf, canghennau wedi cwympo, sbwriel dail a hen goesynnau blodau yn hafan i bryfed yn ystod y gaeaf, a hwythau yn eu tro yn gofalu am bridd ein gerddi, yn bwyta plâu bychan, ac yn cynhyrchu ffynhonnell bwysig o fwyd i adar a mamaliaid bach. Gwnewch addewid i beidio tacluso eich gardd tan y gwanwyn, gan y bydd hyn yn helpu bywyd gwyllt yn ystod y gaeaf.

Ar ddiwedd y gaeaf a dechrau'r gwanwyn gwnewch yn siŵr bod dŵr ar gael i adar a chreaduriaid eraill ei yfed, a rhowch bêl denis mewn bath adar neu bwl bach i helpu i atal y dŵr rhag rhewi. Rhowch fwrdd bwydo adar allan, ond byddwch yn ofalus iawn i'w osod fel nad yw cathod yn gallu cyrraedd ato. Mae porthwyr lluosog ar bolyn tal syth yn dda ond peidiwch â'u gosod yn agos at ffensys neu siediau!

Gwnewch eich peli braster eich hun ar gyfer yr adar trwy doddi braster

Tales from a Wildlife Garden

After the celebrations of Christmas and new year and with spring and the long warm days of summer still off in the distance, February may seem a bit dank and dark. There are, however, still lots of things we can do for wildlife in February and onwards into spring.

Our gardens and green areas are a great place to watch birds being busy, working hard to create their nests and new families. The bare winter trees, fallen branches, leaf litter and old flower stems provide a winter haven for insects, who then look after our garden soil, eat tiny pests, and in turn, generate a major source of food for birds and small mammals. Pledge to leave any garden 'tidying' until the spring to help winter wildlife.



In late winter and early spring make sure there is water available for birds and other creatures to drink, put a tennis ball in a bird bath or small pond the help stop the water freezing. Put a bird feeder out, but be very aware to place so as not to be accessible to cats. Multi feeders on a tall straight pole are good but away from fences or sheds!

coginio ac ychwanegu grawn, briwsion bara, cnau, hadau, a miwslï. Gwnewch dwll yng ngwaelod pot iogwrt, tynnwch ddarn hir o linyr trwy'r twll ac i fyny trwy'r pot. Paciwc y cymysgedd yn galed gyda'r llinyn yn y canol. Rhowch y cyfan yn yr oergell i galedu. Tynnwch y potyn a'i hongian i'r adar ei fwynhau.



Gosodwch flwch nythu neu glanhewch eich hen un, gan feddwl am 'ddiogelwch adar' unwaith eto. Mae gan bob aderyn eu gofynion eu hunain ar gyfer nythu ond byddant yn siŵr o ddod o hyd i gartref maen nhw'n ei hoffi! Gall y Robin Goch nythu mewn hen debot wedi'i guddio mewn gwrych, os wnewch chi dynnu'r caead a'i hongian gerfydd ei handlen.

Dyma'r adeg i osod tai pryfed newydd ar waliau heulog yn barod i'r gwenyn

Make your own fat balls for the birds by melting cooking fat and add grains, breadcrumbs, nuts, seeds, muesli. Make a hole in the base of a yogurt pot, feed a long piece of string through the hole and up through the pot. Pack the mixture in hard with the string in the middle. Put in the fridge to set. Remove pot and hang up for the birds to enjoy.

Put a nest box up or clean out your old one, again, think about 'bird safety'. Birds all have their own requirements for nesting but will find a home they like! Robins will nest in an old teapot hidden in a hedge, lid off spout down, handle up.

New bug houses can be placed on sunny walls now ready for the bees to lay their eggs in, keep any old bee boxes from last year as they won't hatch until it's warmer and sunnier.

ddodwy eu hwyau ynddynt. Cadwch hen flychau gwenyn o'r llynedd yn ofalus, gan na fydd wyau'r gwenyn yn deor nes ei bod hi'n gynhesach ac yn fwy heulog. Ym mis Chwefror plannwch llwyni llawn neithdar fel Mahonia, coed ffrwythau ar gyfer peillwyr cynnar neu cynlluniwch bwl bychan. Mae plannu llwyni ffrwythau bach yn syniad gwych hefyd, gan fod yr adar wrth eu bodd â'r bwyd dros ben a'r gwenyn wrth eu bodd â'r paill a'r neithdar. Mae cyrens du, coch a gwyn yn wych a byddant yn rhoi cynhaeaf enfawr i chi hefyd. Yn aml iawn bydd siopau bargeinion ac archfarchnadoedd yn gwerthu planhigion blodeuol gwanwyn rhad mewn potiau, - primulas, cennin Pedr, crocws, i gyd yn dda ar gyfer denu pryfed cynnar.

Mae hefyd yn amser da i feddwl am ba hadau blodau i'w prynu. Dewiswch flodau agored ar gyfer gwenyn, gloynnod byw a phryfed hofran, a rhannwch blanhigion lluosflwydd ar gyfer planhigion newydd. Cofiwch ystyried unrhyw greadur sy'n llochesu, fel draenogod, pan fyddwch chi'n symud pentyrrau mawr o ddail neu wastraff gardd. Gadewch hyn nes bydd y tywydd wedi cynhesu a'u bod nhw wedi symud allan!

Felly, dyma ychydig o syniadau i ddechrau eich blwyddyn arddio newydd. Cofiwch, efallai mai eich gardd chi ydi hi, ond mae ar gyfer yr holl greaduriaid bach hefyd!

In February plant nectar-rich shrubs like Mahonia, fruit trees for early pollinators or plan to create a small pond. Small fruit bushes are great too, birds love the leftovers and the bees love the pollen and nectar. Black, red and white currants are great and will give you a huge harvest too. Very often bargain shops and supermarkets will be selling off cheap spring flowering plants in pots, primulas, daffodils, crocus, all good for early insects.

It's also a good time to think about what flower seed to buy, choose open flowers for bees, butterflies and hover flies, also, divide perennials for new plants. Be aware of sheltering creatures, such as hedgehogs when you do move large piles of leaves or garden waste, leave this until the weather has warmed and they've moved out!

So, there's a few ideas to get your new gardening year started, remember, it's your garden but it's for the creatures too!



Pont y tŵr

Freshly picked rustic garden style floral bouquets, grown and made to order from my garden in Llanbedr.

Tuswau blodau naturiol wedi eu tyfu, casglu a chreu yn arbennig i archebion yn ein gardd ni yn Llanbedr.

Free local delivery
Danfon yn lleol am ddim

Vouchers available / Talebau ar gael

www.pontytwr.co.uk



Plas Towerbridge * Ruthin * LL15 1UN * 07886 832145

Cwrdd â rhywun lleol: Gruff Jones

Gruff Jones fyddai'r cyntaf i gytuno mai 'dyn prysur' ydi o, ond mae hyn o wirfodd. Mae'n casáu bod heb ryw gynllun ar y gweill, ac mae'n ymdrechu 100% gyda phopeth mae'n ei wneud.

Un o Ruthun yw Gruff yn wreiddiol. Cyfarfu Gruff â'i ddarpar wraig Ceri yn y chweched dosbarth, cyn mynd i ffwrdd i astudio ym Mhrifysgol Manceinion. Ar ôl graddio, aeth i weithio gyda Cummins yn Huddersfield am 2.5 mlynedd, ac yna 2.5 mlynedd gyda Land Rover. Priododd Gruff a Ceri yn 2014 ac ymgartrefu yn Llanbedr.

Aeth Gruff ymlaen i weithio ar fferm Llanbedr, gan odro ar gontract ac yna ail gyfnod gyda Land Rover, cyn mentro mynd yn hunangyflogedig yn

Meet a local: Gruff Jones

Gruff Jones is a self-confessed 'busy man' who wouldn't have it any other way. He hates to have nothing 'planned' and loves to give 100% to everything he does.

Originally from Ruthin, Gruff met his future wife Ceri in 6th form, before going away to Manchester University to study. After qualifying, he worked at Cummins in Huddersfield for 2.5 years, followed by 2.5 years at Land Rover. Gruff and Ceri married in 2014 and settled in Llanbedr.

Gruff went on to work at Llanbedr farm, contract milking followed by a second stint at Land Rover, before making the 'leap of faith' to go self-employed in 2019. He is now the

director of G J Services Ltd sy'n canolbwyntio ar docio carnau a brandio rhewi. Mewn ardal â dwysedd uchel o wartheg godro, mae wedi sefydlu gwasanaeth arbenigol, ond hanfodol i ffermwyr. Er mai dim ond hysbysebu'r busnes yn dawel ar Facebook y mae'n wneud, mae'r cwmni wedi tyfu mewn poblogrwydd, gan ddarparu slotiau rheolaidd i ffermwyr ledled Dyffryn Clwyd a hyd yn oed ymhellach i ffwrdd.

Yn fwy diweddar, mae wedi ehangu i gynhyrchu gathiau a rhwystrau fferm alwminiwm wedi'u gwneud â llaw. Mae'r rhan hon o'r busnes wedi tyfu mor gyflym nes iddo orfod ehangu i weithdy yn Llanrhaeadr. Mae ei enw da hyd yn oed wedi dod ag ymholiadau iddo am archebion o gyn belled â Norwy!

Ar nodyn personol, mae eu bywyd cartref hefyd yn brysur iawn, gan fod gan y cwpl bedwar o blant oedran ysgol gynradd, sef dwy ferch a bechgyn (gefeilliaid 6 oed). Mae Ceri yn gweithio'n rhan-amser yn y practis milfeddygol sy'n eiddo i rieni Gruff, ac yn helpu Gruff gyda'i fusnes. Mae'r teulu'n weithgar iawn ac yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau awyr agored, gyda Gruff yn rhedwr brwd ei hun. Er nad yw'n or-hoff o wylïo chwaraeon, mae Gruff bob amser yn sicrhau ei fod yn blaenoriaethu mynychu hyfforddiant pêl-droed lleol gyda'r bechgyn bob wythnos.

director of G J Services Ltd which focusses on hoof trimming and freeze branding. In an area with a high density of dairy cattle, he has established a niche, but essential service for farmers. Despite only low-key Facebook advertising, his company has grown in popularity and he provides regular slots for farmers across the Vale of Clwyd and even sometimes further afield.



More recently, he has branched out into producing handmade aluminium farm gates and hurdles. This area of the business has grown so rapidly that he has had to expand into a workshop based in Llanrhaeder. His reputation has even brought him enquiries for orders from as far away as Norway!

On a personal note, home life is also very hectic, as the couple have four children, two girls and twin boys aged 6, all of which are still in primary school. Ceri works part time at the Veterinary practice that belongs to Gruff's parents, plus helps Gruff with his business. The family are very active and partake in many outdoor activities, Gruff being a keen runner himself. Despite not being sports 'watchers', Gruff always makes sure he prioritises attending local football training with the two boys every week.



Yn ddiweddar, mae'r teulu wedi ymestyn eu cartref yn y pentref i ddarparu lle i'w teulu sydd ychydig yn fwy na'r arferol, ac er gwaethaf eu nifer o ymrwymadau eraill, mae Gruff a Ceri'n chwarae rhan weithredol wrth gefnogi unrhyw ddigwyddiadau cymunedol, yn enwedig gan eu bod yn bwriadu bod yn rhan o fywyd Llanbedr am amser hir eto.

Cafodd Gruff ei benodi'n Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanbedr yn ddiweddar ac mae bob amser yn hapus i glywed gan unrhyw aelod o'r ward gydag awgrymiadau ar sut i wella'r Gymuned a'r adnoddau. Mae'n ymroddedig i sicrhau y bydd Llanbedr yn y pen draw yn cael caniatâd i ddarparu man chwarae diogel i blant iau.

The family have recently extended their home in the village to accommodate their slightly larger than usual family and despite their many other commitments, both play an active part in supporting any community events, especially as they intend being part of Llanbedr life for a long time yet.

Gruff has recently been appointed Community Council Chair and is always happy to hear from any member of the ward with suggestions on how to improve the Community and resources. He is particularly involved in ensuring Llanbedr eventually gets permission to provide a safe play area for the younger children.



**COMMERCIAL AND DOMESTIC
TREE SURGERY SPECIALISTS.
FOR ALL ASPECTS OF TREE WORK.**



**Scan for
our
Facebook
page**

**TREE SURGERY & TREE REMOVAL
STUMP GRINDING/REMOVAL
HEDGE TRIMMING & REDUCTIONS
TREE INSPECTION
GARDEN CLEARANCE**



Call for a free quote

 **07518 392370**

 **@ruthintreecare**

 **info@ruthintreecare.co.uk**

Fully Insured 



Grwpiau Neuadd Bentref Llanbedr: Dawnsio Albanaidd

Sesiwn 1af AM DDIM, dewch i roi cynnig arni!

Os oes gennych chi ffansi cymryd rhan mewn 'Elephant Stampede' neu efallai 'Shiftin a bobbin', wel dyma'ch cyfle!

Mae Elizabeth Phillips yn rhedeg clwb dawnsio Albanaidd bob **dydd Gwener o 7.30-9.45 yn Neuadd y Pentref, Llanbedr**. Mae'r clwb yn bodoli'n lleol ers 53 mlynedd ac mae'n gysylltiedig â Ffederasiwn Cenedlaethol Dawnsio'r Alban.

Mae croeso heb unrhyw rwystrau i bob grŵp oedran gymryd rhan. Y cyfan sydd ei angen yw ychydig o frwdfrydedd a'r cymhelliant i gymryd rhan mewn ymarfer corff cymedrol yn ogystal â dilyn cyfarwyddiadau (sy'n ymarfer da i gelloedd yr ymennydd yn ogystal!).

Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol gan fod symudiadau'n cael eu 'dysgu' cyn neu yn ystod y dawnsio. Mae hefyd yn weithgaredd cymdeithasol gwych gan fod pawb yn stopio hanner ffordd drwy'r sesiwn i ddal eu gwynt a sgwrsio dros ddiod a bisgedan neu ddwy.

Mae'r sesiwn gyntaf yn hollol rad ac am ddim heb unrhyw rwymedigaeth, felly ffoniwch Elizabeth ar 07387002715 i roi gwybod iddi eich bod chi'n dod. Fel arfer, £3 y sesiwn yw'r ffi wythnosol. Yr unig ofynion eraill yw eich bod yn gwisgo esgidiau fflat gyda gwadn feddal. Gallai dawnsio'r 'Irish Rover' mewn sodlau fod braidd yn beryglus!

Llanbedr Village Hall Groups: Scottish Dancing

1st session FREE, come and give us a try!

Have you ever fancied taking part in an 'Elephants stampede' or maybe 'Shiftin a bobbin', well here's your chance!

Elizabeth Phillips runs the Scottish dancing club every **Friday from 7.30-9.45 in Llanbedr Village Hall**. The club has been in existence locally for the past 53 years as is affiliated to the National Federation of Scottish dancing.

All age groups are welcome with no barriers to participation. All that is required is a modicum of enthusiasm and the motivation to participate in moderate exercise as well as following instructions (good for the brain cells too!)

No previous knowledge is necessary as moves are 'taught' before/ during any dancing. Plus, it's a great social activity as everyone stops halfway through the session to draw a breath and chat over a drink and biscuit or two.

The first session is completely free with no obligation, so just give Elizabeth a ring to let her know you are coming on 07387002715. Weekly fees are usually £3 per session. Only other requirements are a flat shoe with a soft sole, as dancing an 'Irish Rover' in a heel can prove a little precarious!

Llanbedr DC Village Hall

Free Taster Class
£45.50 for 7 weeks

Tues 09:15 - 10:45
Mixed Ability Class

Tues 18:15 - 19:45
Mixed Ability Class

Tues 11:15 - 12:30
Gentle yoga & exercise.
Stay flexible & strong.
Recover from illness.

Thurs 10:00 - 11:30
Mixed Ability Class

Thurs 18:15 - 19:45
Mixed Ability Class

Private sessions
also available

Beginner's Intro
time & place to suit
£85 for 2 x 1hr sessions

Please call to chat
about which options
are best for you.



www.ageofyoga.co.uk
rolande@ageofyoga.co.uk

Contact Rolande **07792 942 612**

No equipment necessary, just you!



Goleuni ar Fusnesau Lleol: Tafarn y Griffin

Mae gan Lanbedr dafarn/gwesty coetsys ers canol y 19eg ganrif. Ond yn anffodus oherwydd amgylchiadau arbennig, caeodd ei drysau ym mis Chwefror 2017. O'r herwydd, dim ond yr eglwys, yr ysgol a neuadd y pentref oedd ar ôl fel mannau cyfarfod i'r gymuned.

Bu'r dafarn ar werth am flwyddyn cyn i wraig leol, Sian Jones, benderfynu ei phrynu i'w achub rhag cau'n barhaol ac i roi canolbwynt cymunedol arall i'r pentref.

Mae Sian, sy'n wreiddiol o Landrillo ac yn fasnachwr ynni o ran galwedigaeth, bellach yn byw yn yr ardal ers dros 25 mlynedd. Priododd â David yn 2008, y mae ei deulu wedi ffermio yn y Dyffryn ers tua 80 mlynedd. Ar ôl magu eu 2 blentyn, roedd Sian yn falch o gael yr her o adnewyddu ac ailsefydlu tafarn y pentref.

I ddechrau roedd y Gymuned yn rhan o'r broses gan obeithio ei gwneud yn dafarn gymunedol, ond yn anffodus ni lwyddodd hyn, ac felly camodd Sian i mewn i ymgymryd â'r prosiect cyfan.

Ar ôl gwaith adnewyddu helaeth, agorodd y Griffin ym mis Medi 2019, bellach bron yn amhosibl ei hadnabod o'r hen dafarn fel yr oedd hi. Yn anffodus, byrhoedlog oedd hyn gyda dyfodiad Cofid, wnaeth effeithio'n ddrwg iawn ar y diwydiant lletygarwch. Fodd bynnag, drwy feddwl creadigol a

Local Business Spotlight: The Griffin Inn

Llanbedr has had a coaching Inn / pub/ hotel since the mid-19th century. However unfortunately due to circumstances, it finally closed its doors in February 2017, which left the village with only a church, school and village hall for the community to meet at.

It was for sale for a year before local woman, Sian Jones decided to purchase it to save it from permanent closure and to give the village another focal community point.

Sian, an energy trader originally from Llandrillo, has now lived in the area for over 25 years. She married David in 2008, whose family have farmed in the Vale for around 80 years. Having brought up their 2 children, Sian welcomed the challenge of refurbishing and reestablishing the village pub.

Initially the Community were involved hoping to make it a community owned pub, but this unfortunately didn't work out so Sian stepped up to take on the whole project.



hyblygrwydd, arallgyfeiriodd y dafarn, gan weini cacen a choffi (gan fod alcohol wedi'i wahardd!), yna ciniawau tecawê ac yn olaf prydau bwyd allan yn yr ardd gwrw, gyda'r pellter diogel dynodedig rhwng y cwsmeriaid. Ar ôl i gyfyngiadau'r Llywodraeth gael eu codi o'r diwedd, roedd Tafarn y Griffin yn gallu gosod y chwe ystafell Gwely a Brecwast, sy'n caniatáu iddynt ddarparu llety i hyd at 14 o westeion y noson yn yr ystafelloedd ensuite hyfyd.



Mae'r dafarn bellach ar agor o ddydd Mercher tan nos Sul, gan ddarparu bar, coffi, ciniawau a phrydau bwyd cynnar gyda'r nos. Mae yna system archebu hyblyg ar gyfer yr ystafelloedd yn enwedig i bobl leol os ydynt angen cwpl o nosweithiau ar gyfer perthnasau/ffrindiau sy'n aros yn yr ardal, ond nad oes angen cyfleusterau'r dafarn arnyn nhw ar gyfer eu harhosiad.

Mae gan Dafarn y Griffin ardd gwrw fawr, ardal ddiogel gyda glaswellt i blant chwarae ynddi a hyd yn oed lle ar gyfer dau gartref modur os oes angen parcio am y nos. Mae'r tîm yn gweithio'n galed i ddarparu dull hyblyg ac addasadwy o arlwygo ar gyfer digwyddiadau gan gynnwys Priodasau,

After an extensive refurbishment, the almost unrecognisable Griffin Inn opened fully in September 2019. Unfortunately, this was short lived as Covid struck and the hospitality trade was hit extremely hard. However, due to creative thinking and adaptability the pub diversified, serving cake and coffee (as alcohol was banned!), then take away lunches and finally meals out in the beer garden, at designated safe distances. After Government restrictions were eventually lifted, the Griffin Inn was able to open their six B&B rooms, allowing them to accommodate up to 14 guests per night in their lovely ensuite rooms.

The pub now opens Wednesday through to Sunday evening, providing a bar, coffees, lunches and early evening meals. The staff provide a flexible booking system for their rooms especially for locals who might need a couple of nights for relatives/ friends staying in the area, but don't need the pub facilities for their stay.

The Griffin Inn has a large beer garden, a safe grassed area for children to play and even a couple of pitches for motorhomes if required to park up for the night. The team work hard to provide a flexible and adaptable approach to catering for events including Weddings, Christenings, Funerals and community events. They often hold live music events, and the quiz, held every other Wednesday at 8pm is proving to be a popular event.

The village is lucky to have such a

Bedyddio, Angladdau a digwyddiadau cymunedol. Maen nhw'n cynnal digwyddiadau cerddoriaeth fyw yn aml, ac mae'r cwis, a gynhelir bob yn ail ddydd Mercher am 8pm, yn profi i fod yn ddigwyddiad poblogaidd.

Mae'r pentref yn ffodus i gael tafarn mor hyfryd o fewn pellter cerdded i'r rhan fwyaf o'r trigolion. Mae'r tân gwyllt a'r soffas cyfforddus yn y gaeaf a'r ardd gwrw eang yn yr haf yn golygu ei fod yn lle gwych i gael diod, cwrdd â ffrindiau neu hyd yn oed gael pryd o fwyd pan nad oes awydd coginio arnoch chi.

Os nad ydych chi wedi ymweld â Thafarn y Griffin eto, dewch draw da chi! Byddwch yn siŵr o gael eich siomi ar yr ochr orau gyda'r cyfan sydd ganddi i'w gynnig. Cofiwch, gyda chymaint o dafarnau lleol yn cau ledled y wlad, os ydych chi am gadw'r adnodd hyfryd hwn, mae angen i chi ei ddefnyddio a'i gefnogi. Neu bydd drysau tafarn arall yn cau, ac yna bydd hi'n rhy hwyr!

lovely pub in walking distance for most residents. The roaring fire and comfy sofas in the winter and spacious beer garden in the summer means it's a great place to have a drink, meet with friends or even grab a meal when you don't want to cook.



If you have never got round to visiting the Griffin Inn yet, give it a try, you will be pleasantly surprised with all it's got to offer. Remember with so many local pubs closing around the country, if you want to keep this lovely resource, you need to use and support it, or it may not stay around and then it will be too late!



Griffin Inn, Llanbedr DC,
Ruthin LL15 1UP
www.griffin.wales
01824 705542

Dydd Llun Monday Closed
Dydd Mawrth Tuesday Closed

Dydd Mercher Wednesday
Bar 12pm – 9pm / Food 12 - 3pm & 5 - 8pm

Dydd Iau Thursday
Bar 12pm – 9pm / Food 12 - 3pm & 5 - 8pm

Dydd Gwener Friday
Bar 12pm – 10.30pm / Food 12 - 3pm & 5 - 8pm

Dydd Sadwrn Saturday
Bar 12pm – 10.30pm / Food 12 - 3pm & 5 - 8pm

Dydd Sul Sunday
Bar 12pm – 7pm / Sunday Lunch 12pm – 3pm
Sunday Evening 5 – 7pm



Hanes: Moel Famau

Mae Moel Famau ar ffin orllewinol ward Llanbedr DC ac hefyd ar y ffin rhwng Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Adeiladwyd y gofeb am £6000, a godwyd trwy danysgrifiad cyhoeddus i goffáu Jiwbilî'r Brenin Siôr III. Dechreuwyd y gwaith ym 1810 a chafodd ei gwblhau ym 1812.

Dyluniwyd y tŵr gan Mr Harrison o Lancaster. Roedd yn cynnwys tair rhan ac yn 115 troedfedd o uchder. O'r sylfaen lydan, sy'n dal i sefyll yn rhannol heddiw, cododd tŵr canolog yn mesur 40 troedfedd o uchder ac ar ben hwn roedd obelisk yn mesur 36 troedfedd o uchder. Dylai fod grisiau wedi bod yn dringo y tu mewn, ond mae'n debyg nad oedd hyn yn rhan o'r

History: Moel Famau

Moel Famau is on the west boundary of the ward of Llanbedr DC and also is on the border between Flintshire and Denbighshire.

The monument was built for £6000, raised by public subscription to commemorate the Jubilee of King George III, with work starting in 1810 and completing in 1812.


The tower was designed by Mr Harrison of Lancaster, with three sections and total height of 115ft. From the large base, which is still partially standing today, rose a central tower measuring 40ft high and atop of this sat an obelisk measuring 36ft high. There was to have been a staircase ascending inside, but apparently this was not part of the final construction,

gwaith adeiladu terfynol. Tybir hefyd bod yr arian wedi dod i ben cyn i'r gwaith gael ei orffen, gan arwain at arbedion yn y dyluniad.

Yn ystod storm arbennig o gryf ar 27 Hydref 1862, chwythwyd y tŵr uchaf a'r obelisk i lawr, gan adael pentwr o rwbel a difrod i'r rhan isaf o'r tŵr.

and it is presumed that the money ran out before the job was finished, leading to economies being made to the design.

During a particularly heavy storm on 27th October 1862, the upper tower and obelisk were blown down, leaving a pile of rubble and damaging the lower tower.



6 *Liverpool Daily Post, Friday, October 26, 1962*

THE FRIDAY PAGE FOR WALES

100 years ago to-morrow

The Moel Famau tower crashed in ruins

By Charles Quant

A century ago to-morrow, at the height of a great storm, the Jubilee Tower on the summit of Moel Famau, crashed in ruins.

Thus disappeared what must have been one of the most striking monuments in North Wales, for even in its present state as a heap of tumbled masonry, the Moel Famau tower, as it is popularly called, is visible from as far away as...

to Mold and the Neighbourhood. With its Legends and Traditions, by Horatio J. Tweddell.

It was published in 1890, when men's memories of the events of October 27, 1862 must have been fresh, and I presume that he drew on first hand accounts for his story of the Jubilee Tower and its spectacular fall.

It was built for £6,000, raised by public subscription to commemorate the

astride the border of Denbighshire and Flintshire, force—for the Tower stands

According to *The Gentleman's Magazine* of 1811, which printed an account of the laying of the foundation stone.

"A procession ascended the mountain accompanied by a constellation of beautiful Welsh ladies and the gathering upon the summit was truly interesting and grand. Lord Kenyon gave an address and then laid the stone of the intending column. The assembled company sang songs and the soldiers fired a salute. The ceremony ended with the singing of the National Anthem and the people

Nododd Charles Quant mewn erthygl ar gyfer y *Liverpool Daily Post* ym mis Hydref 1962, bod cynlluniau ar droed i atgyweirio'r adfeilion a'u gorchuddio â choncrit i atal y broses o adfeilio, a fu'n sylweddol ers i'r tyrau ddymchwel 100 mlynedd ynghynt. Fodd bynnag, ar y pryd nid oedd Sir y Fflint na Sir Ddinbych yn fodlon ymgymryd â'r gwaith am y gost amcangyfrifedig o £6000.

In an article by Charles Quant written for the *Liverpool Daily Post* in Oct 1962 he remarks that plans had been drawn up to make good the ruins and cap with concrete to halt the process of decay, which had been significant since the towers collapse 100 years earlier. However, at that time neither Flintshire nor Denbighshire were willing to undertake the work at the estimated cost of £6000.

Yn y pen draw, cafodd “Tŵr y Jiwbilî” ei wneud yn ddiogel ym 1970, gyda gwaith pellach yn 2013 a’r 2020au, i ddatgelu rhannau o’r tŵr na chafwyd eu gweld ers canrif a’i wneud yn yr hyn y gallwn ei weld heddiw.



Mae sawl llwybr hyfryd y gerdded i fyny Moel Famau o fewn y ward ac mae’n parhau i fod yn fan gwyllo poblogaidd lle gallwch weld yr Wyddfa ar ddiwrnod clir.



The “Jubilee Tower” was eventually made safe in 1970 and further work was carried out in 2013 and the 2020’s to reveal parts of the tower that hadn’t been seen for a century and make it into what we can see today.

There are several beautiful walking routes up to Moel Famau from within the ward and it remains a popular viewing point from which you can see Snowdon on a clear day.



wernog wood

Craft courses in 2026

More courses, dates & accommodation on website

See www.wernogwood.co.uk for details

e. courses@wernogwood.co.uk t. 0776 5251531


Wernog, Llanbedr DC, Ruthin. Denbighshire. North Wales. LL15 1YE



Katagami indigo dyeing




Jewellery making



Cleft oak gate making



Spoon carving



Rush basket weaving




Kitchen knife making



Basket making




Cleft oak bench



Weaving



Dry stone walling




Shoe making



Stone carving



Drawing



Wood carving



Batik



Sustainable floristry



Automata



Blacksmithing



Stained or fused glass



Lino printing



Watercolour



Timber frame building




Willow weaving



Soap or natural skincare



Greenwood chairmaking



Welding



Watchmaking



Photography



Natural wool dyeing



Pit fired ceramics

Menter Adeiladu Pwll

Pan gynhaliodd y Cyngor Cymuned sgwrs grŵp bywyd gwyllt ar gynefinoedd pyllau a pha mor hanfodol ydyn nhw ar gyfer bioamrywiaeth, cefais fy ysbrydoli'n fawr. Yn fuan wedyn, fe wnaethon nhw lansio menter adeiladu pyllau, a phan adeiladodd Lyn ei bwell ei hun, a chyhoeddi'r hanes yn y cylchlythyr, roeddwn i wedi fy nal yn llwyr. Felly, gyda gwybodaeth a gasglwyd o ychydig o fideos YouTube i'm harfogi, penderfynais fentro creu pwll bywyd gwyllt yn fy ngardd, gan wneud fy rhan i gefnogi natur.

Roedd fy ngardd i yn her ond yn y pen draw, des i o hyd i fan addawol, - lled-gysgodol, a heb fod dan orchudd coed trwchus, er mwyn osgoi cwmp dail yr hydref.

Doeddwn i ddim eisiau nodwedd ffurfiol na chymesur, felly dewisais siâp afreolaidd, organig i efelychu pwll naturiol. Daeth yn amlwg yn fuan nad gwaith llaw yn unig fyddai hyn.

Yn ffodus, nid yn unig roedd Phil, y garddwr, yn awyddus i fod yn rhan o'r prosiect, ond roedd o'n digwydd gallu gyrru peiriant cloddio hefyd. Gwnaeth argraff garw arnaf drwy gloddio'r cyfan o fewn ychydig oriau yn unig.

Pond Building Initiative

When the Community Council hosted a wildlife group talk on pond habitats and how essential they are for biodiversity, I was truly inspired. Shortly after, they launched a pond-building initiative, and when Lyn built his own pond, which featured in the community newsletter, I was hooked. Armed with the knowledge gleaned from a few YouTube videos, I decided to take the plunge and create a wildlife pond in my garden, doing my bit to support nature.

My garden presented a challenge but eventually, I found a promising spot, semi-shaded, but not under heavy tree cover, to avoid autumn leaf fall.

I didn't want a formal or symmetrical feature, so I opted for an irregular, organic shape to mimic a natural pond. It quickly became clear that this was not going to be a manual job.

Luckily, Phil, my gardener, was not only keen to be involved but also happened to know how to drive a digger.



Ar un adeg, roedd yn edrych yn debycach i geudwll ar ôl bom, ond unwaith i ni ddechrau ei siapio'n iawn, gyda thywod a blociau concrit i ffurfio cyfuchliniau, silffoedd plannu, a rampiau graddol, dechreuodd gymryd ffurf go iawn. Mewn gwirionedd, daeth gwas neidr a llyffant draw yng nghanol yr adeiladu, fel pe baent wedi dod i archwilio eu cartref newydd!

I atal y llyn rhag gollwng ac i amddiffyn y leinin rhag cerrig miniog a phridd yn symud, fe wnaethon ni osod haen drwchus o dan y leinin hyblyg, trwm. Rhoddodd hyn dawelwch meddwl i ni y byddai'r strwythur yn para ac yn ymdopi â symudiad naturiol y dddear.

Ar ôl llenwi'r pwll, fe wnaethon ni adael i lefel y dŵr setlo am ychydig ddyddiau cyn mynd ati i ychwanegu cymysgedd o blanhigion ymylol a phlanhigion dŵr dwfn, ynghyd â rhywogaethau sy'n ychwanegu ocsigen i gadw'r dŵr yn iach a chefnogi bywyd gwyllt yn y dŵr. Roedd yn dipyn o olygfa gweld Phil yn gorwedd ar ysgol uwchben y pwll i blannu'r rhain!

Impressively, he had the whole thing dug out within just a few hours.

At one point, it looked more like a bomb crater, but once we began shaping it properly, with sand and concrete blocks to form contours, planting ledges, and gradual ramps, it really started to take form. In fact, a dragonfly and a frog dropped by mid-build, as if to inspect their future home!

To prevent leaks and protect the liner from sharp stones and shifting soil, we laid a thick underlay beneath a heavy-duty, flexible liner. This gave us peace of mind that the structure would last and cope with the natural ground movement.



Once the pond was filled, we allowed the water level to settle for a few days and then proceeded to add a mix of marginal and deep-water plants, along with oxygenating species to keep the water healthy and support aquatic life. It was impressive watching Phil balance across a step ladder placed over the pond to plant these!

Roedd y planhigion yn cynnwys:

- Planhigyn ffibr optig (*Scirpus cernuus*) i ychwanegu gwead mân ac mae'n wych ar gyfer ymylon llaith.



- Gellesgen (*Iris versicolor*) gyda'i blodau unionsyth, trawiadol, sy'n ddeniadol iawn i weny a gloynnod byw.
- Gleision y Gors (*Myosotis scorpioides*) lledaenydd ysgafn, y mae pryfed hofran a gwenyn yn hoff iawn ohonyn nhw.
- Cornlys (*Ceratophyllum demersum*) sy'n creu ocsigen o dan y dŵr ac yn creu cynefin i bryfed dyfrol.
- Brwynen gors (*Schoenoplectus tabernaemontani*) yn cynnig lloches a safleoedd dodwy wyau.
- Mintys y dŵr (*Mentha aquatica*) arogl cryf, y mae gwenyn a phryfed hofran yn ei garu.
- Dau blanhigyn lili'r dŵr (rhywogaeth *Nymphaea*) sy'n rhoi cysgod, lloches a llwyfannau clwydo i bryfed.

Dewiswyd y cymysgedd hwn o blanhigion sy'n tyfu dan y dŵr, ar ymylon y llyn ac yn arnofio arno fel ffynonellau neithdar a chynefin i lyffantod, madfallod dŵr, mursennod, a gwas neidr.

These plants included:

- Fibre optic plant (*Scirpus cernuus*) to add fine texture and is great for damp edges.
- Flag Iris (*Iris versicolor*) good for the striking vertical flowers, very attractive to bees and butterflies.
- Water forget-me-nots (*Myosotis scorpioides*) a gentle spreader, beloved by hoverflies and bees.
- Hornwort (*Ceratophyllum demersum*) a submerged oxygenator that creates habitat for aquatic insects.
- Bog rush (*Schoenoplectus tabernaemontani*) offers shelter and egg-laying sites.
- Water mint (*Mentha aquatica*) strong scent, loved by bees and hoverflies.



- A couple of water lilies (*Nymphaea* species) provide shade, shelter, and perching platforms for insects.

This mix of submerged, marginal, and floating plants was chosen to offer both nectar sources and habitat for frogs, newts, damselflies, and dragonflies.

Mae'r pwll yn cynnwys sawl nodwedd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt:

- Darn dwfn ar gyfer llyffantod a madfallod dŵr sy'n gaeafu.
- Traeth bas gyda cherrig mân, wedi'i lethrio'n ysgafn er mwyn i anifeiliaid fel draenogod allu mynd a dod yn ddiogel i gael diod.
- Tywyrch blodau gwyllt o amgylch y perimedr i ddenu peillwyr a lliniaru'r ymylon.

Rwy'n edrych ymlaen yn arw i weld y blodau gwyllt yn blodeuo wrth i'r gwanwyn gyrraedd.



Ar hyn o bryd mae'r Gymuned yn cynnig £50 tuag at gost creu pwll newydd ar gyfer unrhyw dŷ yn Ward Llanbedr fel rhan o'n menter Adeiladu Pyllau.

Cysylltwch â Jim Jones ar clerk. llanbedrdc@gmail.com i wneud cais am yr arian grant hwn.

The pond includes several wildlife-friendly features:

- A deep zone for overwintering frogs and newts.
- A shallow beach with pebbles, gently sloped for safe access for animals such as hedgehogs to have a drink.
- Wildflower turf around the perimeter to attract pollinators and soften the edges.

I'm especially excited to see the wildflowers bloom as spring arrives.

The Community are currently offering £50 towards the cost of creating a new pond for any house in the Llanbedr Ward as part of our Pond Building initiative.

Contact Jim Jones on clerk.llanbedrdc@gmail.com to apply for the grant.

Cyngor Cymuned Llanbedr ar Facebook

Mae gan y Cyngor Cymuned dudalen Facebook lle gallwch ddarganfod mwy am ein gwaith. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ddyddiadau'r cyfarfodydd, agendâu ac unrhyw ddigwyddiadau rydym yn eu trefnu, ond rydym hefyd yn gobeithio annog mwy o ymgysylltu â thrigolion y pentref. Efallai bod gennych chi syniadau ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol neu ffyrdd o wella ein hamgylchedd lleol, neu efallai yr hoffech chi wirfoddoli yn ystod digwyddiadau?

Ymunwch â'n grŵp Facebook i gael gwybodaeth uniongyrchol am be' sy'n digwydd.

Chwiliwch amdanom ar Facebook ar "Cyngor Cymuned Llanbedr DC Community Council"

Llanbedr Community Council Facebook

We have our own Facebook page where you can find out more about the work of the Community Council. We will notify you about our meeting dates, agendas and any events we are organising but we also hope to encourage greater engagement with the village residents. Perhaps you have ideas for future events or ways to improve our local environment or would like to volunteer at events?

Join our Facebook group to get firsthand information about what is happening.

Find us on Facebook at "Cyngor Cymuned Llanbedr DC Community Council"

Digwyddiadau i ddod

Diwrnod Crefft a Choffi: 6ed Mehefin rhwng 10am a 2pm

Cynhelir yn Neuadd Gymunedol Llanbedr, gyda stondinau'n gwerthu crefftau lleol a chacen a choffi. Mynychu'n rhad ac am ddim.

Diwrnod Hwyl i'r Teulu: 27 Mehefin rhwng 12 a 6pm.

Cynhelir yn Nhafarn y Griffin, gydag adloniant i blant rhwng 12 a 2pm a



Parti Nadolig i'r Plant: 21 Tachwedd rhwng 1 a 3pm.

Cynhelir yn Neuadd Bentref Llanbedr, gydag adloniant i'r plant.

Cinio Nadolig i'r Gymuned: 5ed Rhagfyr.

Cynhelir 2 eisteddiad yn Nhafarn y Griffin am 12 a 2pm gyda chymhorthdal gan y Cyngor Cymuned.

Upcoming Events

Craft and Coffee Day: 6th June between 10am and 2pm.

Held at Llanbedr Community Hall, there will be stalls selling local crafts and cake and coffee. Free to attend.



Family Fun Day: 27th June between 12 and 6pm.

Held at The Griffin Inn, there will be children's entertainment 12-2pm and live music 4-6pm

Children's Christmas Party: 21st November between 1 and 3pm.

Held at Llanbedr Village Hall, there will be children's entertainment.

Community Christmas Meal: 5th December.

Held at The Griffin Inn there will be 2 sittings at 12 and 2pm subsidised by the community council.

Manylion Cyswllt y Cyngor Cymuned

Os hoffech gysylltu ag unrhyw un o Gynghorwyr Cymuned Llanbedr (a restrir isod), gydag unrhyw gwestiwn neu awgrymiadau, anfonwch e-bost at Mr Jim Jones (Clerc) ar:

clerk.llanbedrdc@gmail.com

Gruff Jones - *Cadeirydd a Chadeirydd
Grŵp Gwaith Parc Chwarae*

Sue Stell - *Dirprwy Gadeirydd ac*

Arweinydd Cyfryngau Cymdeithasol

Jackie Bird - *Cadeirydd Grŵp Gwaith
Cydlyniant Cymdeithasol*

Barbara Murray - *Arweinydd
Bioamrywiaeth*

Nick Smith

Richard Craig

Rachael Gartside

Simon Marshall

Cymerwch olwg ar wefan y Cyngor
Cymuned trwy sganio'r côd QR isod.

Community Council Contact Details

If you would like to contact any of the Llanbedr Community Councillors (listed below), with any questions or suggestions, please send an email via Mr Jim Jones (Clerc) on:

clerk.llanbedrdc@gmail.com

Gruff Jones - *Chair and Chair Play Park
Working Group*

Sue Stell - *Deputy Chair and Social
Media Lead*

Jackie Bird - *Chair Social Cohesion
Working Group*

Barbara Murray - *Biodiversity Lead*

Nick Smith

Richard Craig

Rachael Gartside

Simon Marshall

Take a look at the Community Council
website through the QR below.



Os yr hoffech hysbysebu yn y
cylchlythyr, cysylltwch â Jim Jones ar
clerk.llanbedrdc@gmail.com

Mae gennym 2 rhifyn y flwyddyn sydd
yn mynd allan i tua 450 o gartrefi yn
ward Llanbedr DC.

If you are interested in advertising
in our newsletter please contact Jim
Jones on clerk.llanbedrdc@gmail.com

We have 2 issues a year to around 450
homes in the ward of Llanbedr DC.